**Pwyllgor Diwylliant - CC-4-02(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 6 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 10.00am -1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Goffa Pontyberem |

-

-

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg**

***Cyflwyniad gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, 6ed Chwefror 2002, Neuadd Goffa, Pontyberem***

**Cyflwyniad:**

Yn ôl cyfrifiad 1991 mae 89,213 (54.3%) o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg. Yn nhermau cyffredinol, felly, mae gan yr iaith Gymraeg le pwysig ym mywyd cymdeithasol, cyhoeddus, diwylliannol ac economaidd y sir. Yn fwy penodol, o holl Awdurdodau Unedol trwy Gymru mae gan Sir Gaerfyrddin y nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg. Gwynedd sydd â'r cyfanswm nesaf gyda 78,733 o siaradwyr Cymraeg. Fel canran o boblogaeth sirol dim ond Gwynedd ac Ynys Môn sydd yn uwch na Sir Gaerfyrddin.

Er gwaethaf yr olwg nerth ar y Gymraeg, mae ymchwil gymdeithasegol a daearyddol diweddar ar yr iaith yn dangos cyflwr bregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin. Mae tystiolaeth yn awgrymu yn gryf bod bywiogrwydd atgynhyrchiol yr iaith yn y rhan hon o Gymru yn cael ei erydu. Nodweddir hyn gan yr hollti mewnol o gymunedau iaith a fu unwaith yn endidau daearyddol arwahanol, colled net o siaradwyr Cymraeg, dirywiad eglur yng nghyfraddau llythrennedd a phyramid oed sydd yn cael ei ddominyddu yn fwyfwy gan siaradwyr h•n.

Mae sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin wedi'i ddiffinio, felly, gan ei photensial aruthrol a natur yr heriau i'w wynebu wrth wireddu'r potensial hwnnw. Yn y cyd-destun hyn, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweld ei ymrwymiadau i wasanaethu'r cyhoedd Cymraeg ei hiaith ac i ddatblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

**Diddordebau Arweiniol:**

Yn y cyswllt hwn, arweinir Cyngor Sir Caerfyrddin gan nifer o ddiddordebau:

- Galluogi pawb sydd yn derbyn neu yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor neu yn cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd yr ardal y mae'n ei gwasanaethu a thrwy hynny gyfrannu at yr ymdrech i adfywio'r Gymraeg ledled Cymru;
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan gyrff cyhoeddus eraill a chefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau a busnesau sydd yn darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yn yr ardaloedd a wasanaethir gan y Cyngor;
- Datblygu gallu disgyblion ysgol, myfyrwyr ac oedolion i fod yn hyderus ddwyieithog i'w galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymuned ddwyieithog y maent yn byw ynddi;
- Datblygu rôl y Cyngor i hyrwyddo datblygiad yr iaith Gymraeg drwy ei bolisïau, strategaethau, prosiectau, partneriaethau a gwasanaethau i'r cyhoedd;
- Ennyn hyder a gwella gallu staff a Chynghorwyr Cyngor Sir Caerfyrddin, a thrigolion y sir, yn eu sgiliau iaith dwyieithog a chynyddu eu defnydd llafar ac ysgrifenedig o'r Gymraeg i gefnogi a hyrwyddo mwy o ddefnydd o sgiliau dwyieithog yng ngweinyddiaeth y Cyngor er budd gwasanaethu'r cyhoedd yn eu dewis-iaith;
- Datblygu delwedd fodern a deinamig i'r sir yn gyfan, sydd yn rhoi gwerth i'w threftadaeth ac sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Gan nodi hefyd y diddordebau sydd yn ymdreiddio Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r Iaith Gymraeg, gellir cyfrif Cyngor Sir Caerfyrddin fel sefydliad rhagweithiol a phwysig ar fater y Gymraeg yn neilltuol ac ar ddwyieithrwydd yn gyffredinol. Yn hyn o beth, gellir ystyried y Cyngor fel partner allweddol ar y materion hyn fel ag y maent yn perthyn i Gymru gyfan.

**Gorolwg mesurau Cyngor Sir Caerfyrddin:**

Yn y cyd-destun hyn mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi adnabod yr angen am ymagwedd strategol ac holistaidd at gynllunio iaith er mwyn hwyluso gweithgarwch effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi ymroi, trwy ei Strategaeth Gorfforaethol 2001-2005, i ddatblygu a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Amlygir yr ymrwymiad hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- Cynllun Iaith Gymraeg sydd yn disgrifio ymrwymiad y Cyngor i ddarpariaeth

gwasanaethau cyhoeddus yn y Gymraeg;
- Strategaeth Iaith Sir Gaerfyrddin sydd yn ymrwymo partneriaid allweddol â ffordd strategol a holistaidd at gynllunio iaith;
- Cynllun Addysg Gymraeg sydd yn amlinellu amcanion y Cyngor yngln â hyrwyddo addysg cyfrwng y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin;
- Cefnogaeth gyfredol a roddir i Mentrau Iaith Myrddin sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn cymunedau lleol.

Hefyd, mae'r iaith Gymraeg yn rhan ganolog o bortffolio aelod allweddol o'r Cabinet. Mae hyn yn sicrhau bod yr iaith yn cael ystyriaeth deilwng ar y lefel uchaf yn y Cyngor a hynny mewn perthynas â holl feysydd gweithgarwch y Cyngor. Yn nhermau ymarferol, mae agwedd rhagweithiol y Cyngor yn cydredeg gyda thwf arwyddocaol yn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd a hanner ysgolion uwchradd yn dysgu yn ddwyieithog neu yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg. Y tu hwnt i faes addysg, mae'r Cyngor wedi cefnogi yn sylweddol ei ymrwymiadau i'r Gymraeg, neilltuwyd ychydig dros £208,000 ar gyfer 2000-2001, ac ychydig dros £368,000 ar gyfer 2001-2002 a swm tebyg ar gyfer 2002-2003. Ar wahân i fuddsoddi yn uniongyrchol yn y Gymraeg ac yng nghymunedau Cymraeg yn y sir, mae'r Cyngor yn cyfrannu hefyd i ffyniant yr iaith a'i siaradwyr yn ei rôl fel un o brif gyflogwyr yr ardal ac fel hwylusydd datblygiad economaidd.

Mae'r Cyngor, felly, wedi lleoli ei hun fel sefydliad allweddol pwysig yn y maes hwn. At ei gilydd, mae'r mesurau hyn yn ffurfio pecyn holistaidd a chynhwysfawr ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg. Gan nodi bwriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i adolygu mater y Gymraeg yn y system addysg ar wahân, amlinellir y mesurau perthnasol i orchwyl y Pwyllgor hyn yn eu tro, yn gryno.

***Cynllun Iaith Gymraeg***

Mae hwn yn disgrifio sut mae'r Cyngor yn gweithredu wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg, yn ôl eu dewis iaith. Egwyddor arweiniol y cynllun yw'r driniaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae'r Cyngor yn y broses o fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg newydd ei addasu, gan ddisodli'r cynllun gwreiddiol a fabwysiadwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1997. Mae'r fersiwn newydd yn ceisio atgyfnerthu ac ymestyn ymrwymiad y Cyngor i normaleiddio darparu gwasanaethau yn Saesneg a'r Gymraeg.

Wrth ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, mae'r Cyngor yn ymroi i drin y Saesneg a'r Gymraeg ar sail cyfartaledd gan geisio am gyswllt â'r cyhoedd yn eu dewis-iaith. O ran cynllunio a chyflwyno gwasanaethau, mae'r Cyngor yn ymroi i asesu goblygiadau ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd yn ystod y broses o'u llunio a'r effaith ar y Gymraeg mewn gwasanaethau ac yn y gymuned. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymroi i sicrhau bod sefydliadau eraill sydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar y cyd neu ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin yn

darparu eu gwasanaethau yn unol â'r gofynion ac i'r un safonau â'r hyn sydd yn ofynnol ar wasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Mae wyneb cyhoeddus y Cyngor, gan gynnwys ei hunaniaeth gorfforaethol, yn gyfan gwbl ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn cwmpasu hyrwyddo awyrgylch dwyieithog trwy ddefnyddio cerddoriaeth a deunyddiau eraill yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn sefyllfaoedd perthnasol.

Mae gweithredu a monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn effeithio ar feysydd staffio, recriwtio a hyfforddiant. Yn y cyd-destun hwn mae archwiliad sgiliau iaith a strategaeth sgiliau iaith wedi'u llunio. Yn y modd hwn, mae'r Cyngor mewn sefyllfa i adnabod anghenion sgiliau iaith neilltuol a hynny mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau yn ôl dewis-iaith cwsmeriaid. Wrth gwrdd â gofynion gofal cwsmer dwyieithog, llenwir bylchau mewn sgiliau trwy hyfforddi staff presennol yn y sgiliau iaith perthnasol neu mae staff newydd sydd ganddynt y sgiliau perthnasol yn cael eu recriwtio. Mae'r portffolio hyfforddiant yn cynnwys sgiliau iaith bob dydd, cyrsiau arbenigol a gwella sgiliau, a hyfforddiant ymwybyddiaeth a sensitifrwydd iaith. O ran recriwtio yn gyffredinol, ystyrir gallu ieithyddol fel un o blith nifer o sgiliau dan ystyriaeth wrth apwyntio staff.

Mae gan y Cyngor Uned Gyfieithu Ganolog sydd yn rhan integredig o weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg. O dan y cynllun newydd mae defnydd cynyddol i fod o'r uned i wirio ac i olygu deunydd yn hytrach na chyfieithu deunydd o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yn lle, anogir swyddogion i ymgymryd â'u gwaith cyfieithu eu hunain, ar wahân i destunau mwy. Gan hynny, mae adrannau unigol yn cael eu hyrwyddo i gymryd cyfrifoldeb am eu gofynion dwyieithog eu hunain.

***Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg***

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi penderfynu, yng nghyd-destun adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg, annog adrannau a gwasanaethau neilltuol i geisio cyswllt rhagweithiol a'r cyhoedd sydd yn siarad Cymraeg. Bydd Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg yn amlinellu sut fydd hyn yn cael ei gyflawni.

Bydd Cynllun Datblygu'r Gymraeg yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Enw'r Adran ac Uned Gwasanaeth;
- Crynodeb o amcanion y gwasanaeth neu adran a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Proffil o ddefnyddwyr – presennol a photensial yn erbyn proffil poblogaeth y sir (gan nodi nodweddion sosio-ieithyddol);
- Rhestr o bolisïau a blaengareddau cyfredol yr adran;
- Y Ddarpariaeth bresennol i siaradwyr Cymraeg (disgrifiadau o adnoddau a dulliau darparu);

- Cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg i'r dyfodol;
- Rhestr o weithgareddau anuniongyrchol neu brosiectau datblygol cyfredol;
- Mesurau a roddwyd mewn lle i hyrwyddo ffyniant y Gymraeg o fewn y gweithgareddau hynny;
- Cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau newydd i gynnal a datblygu'r Gymraeg i'r dyfodol;
- Rhestr o dargedau mesuradwy ar gyfer pob cyfle datblygu;
- Asesiad o'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer caniatáu'r datblygiadau, yn cynnwys datblygiad staff ag anghenion hyfforddiant, ad-drefnu neu adleoli adnoddau presennol, unrhyw adnodd newydd.

***Mentrau Iaith Myrddin***

Ers sefydlu'r Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth yn 1991, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi bod yn hwylusydd pwysig o fentrau iaith cymuned-seiliedig lleol. Trwy alluogi creu Mentrau Iaith Myrddin yn Sir Gaerfyrddin yn 1998, mae'r Cyngor wedi chwarae rôl arwyddocaol wrth ei gwneud hi yn bosib i sefydlu rhwydwaith o 6 Menter Iaith leol yn y sir. Hwn yw'r fframwaith mwyaf cynhwysfawr ar gyfer gweithgarwch cymuned-seiliedig ar yr iaith Gymraeg trwy Gymru gyfan. Mae gweithgareddau'r rhwydwaith yma o Fentrau Iaith yn bwysig wrth sicrhau parhad yr iaith Gymraeg fel iaith defnydd bob dydd teuluoedd a chymunedau daearyddol lleol trwy hyrwyddo trosglwyddiad iaith rhwng cenedlaethau ar yr aelwyd a thrwy ddarparu cyfleoedd i bobl ifainc ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Wrth gydnabod rôl y Mentrau Iaith fel cyfrwng ar gyfer ymbweri cymunedau Cymraeg lleol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi nawdd creiddiol yn flynyddol i'r Mentrau Iaith gwerth £100,000 yn ogystal â neilltuo nawdd arall ar gyfer cefnogi cyweithiau arbennig. Mae'r gefnogaeth a roddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'r maes arbennig hwn o gynllunio ieithyddol yn fwy na chefnogaeth holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru gyda'i gilydd.

***Strategaeth Iaith Sir Gaerfyrddin***

Wrth chwilio am ffyrdd o sicrhau gweithgarwch effeithiol ym maes cynllunio iaith, tra yn parhau i gefnogi Mentrau Iaith, mae Cyngor Sir Caerfyrddin o'r farn ei bod hefyd yn angenrheidiol drin lefelau a pheuodd iaith eraill. Yn hyn o beth, mae gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae wrth yrru newid yn ei flaen o fewn ei sefydliad ei hun a thrwy ddylanwadu ar eraill. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg yn bwysig wrth wireddu newid pellach o fewn y Cyngor tra, ar y llaw arall, mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg yn gyfrwng allweddol ar gyfer adeiladu partneriaethau a dylanwadu ar eraill ar faterion iaith.

Dechreuodd Cyngor Sir Caerfyrddin ar y broses o lunio strategaeth iaith yn ystod 2000. Mae'r

strategaeth hon yn ceisio darparu fframwaith holistaidd ar gyfer gweithgareddau cynllunio iaith ar hyd a lled y sir trwy bartneriaethau effeithiol gyda sefydliadau priodol eraill. Yn ystod y cyfnod 2000-2001 sefydlwyd 5 maes neu fforwm o weithgarwch fel y canlyn: Busnes a'r Economi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Addysg a Hyfforddiant, Hamdden a Diwylliant, Gweithgarwch Cymunedol a Gwirfoddol. Mae gweithgareddau yn cynnwys cynnal Cynhadledd Cynllunio Iaith yn Hydref 2000; cynnal Cynhadledd Cynllunio Iaith a'r Gwasanaethau Gofalgar yn Nhachwedd 2001 a Chynhadledd Iaith a Chynllunio Defnydd Tir, hefyd yn Nhachwedd 2001. Ar gyfer 2002-2003, mae ffurfioli partneriaethau creiddiol o dan ystyriaeth gan sefydlu asiantaeth ddeinamig ar gyfer gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin ymhellach.

**Safbwynt ar iaith yn Sir Gaerfyrddin – yn cyfrannu at gonsensws newydd ar yr iaith Gymraeg yng Nghymru mewn trefniad sefydlog a chadarn:**

Mae trawsnewidiadau yn natur llywodraeth yng Nghymru, yn neilltuol dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r pwerau newydd a roddwyd i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn caniatáu am ail-leoli lle yr iaith Gymraeg ym mhob agwedd o gymdeithas yng Nghymru. Gellir ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r heriau cyfoes sydd yn wynebu'r Gymraeg cynorthwyo cyfeiriad newydd ar fater yr iaith yng Nghymru. I Gyngor Sir Caerfyrddin, mae nifer o ddealltwriaethau ynglyn â gweithgarwch iachus cymdeithas ddwyieithog yn codi yn uniongyrchol o brofiadau'r Cyngor o drin y Gymraeg fel nodwedd arwyddocaol o'r cymuned a hynny mewn ffordd ragweithiol. Mae'r rhain fel y canlyn:

- Mae iaith yn nodwedd o ddinasyddiaeth yn nemocratiaeth leol ac nid yw yn symbol o hunaniaeth ethnig gaeëdig;
- Mae dewis iaith yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas â gofal cwsmer;
- Mae iaith yn ystyriaeth bwysig mewn perthynas â chyfle cyfartal a chysylltiadau hiliol;
- Y rheidrwydd o ddatblygiad economaidd ar gyfer cynnal cymunedau iaith ag arwyddocâd iaith yn natblygiad cynaladwy;
- Mae gan iaith werth offerynnol fel sgil ac fel adnodd diwylliannol;
- Buddsoddiad ym mhobl a chymuned yw i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg;
- Y rheidrwydd o bersbectif ecolegol ar iaith, hynny yw ffordd holistaidd o edrych ar iaith yng nghymdeithas gan adnabod y berthynas allweddol rhwng yr iaith Gymraeg â holl beuoedd cymdeithas.

Wrth gloi, awgrymwn fod y gwaith o sicrhau parhad ym mywiogrwydd y Gymraeg yn flaenoriaeth i Gymru gyfan. O ecoleg rydym yn deall bod yna gryfder mewn amrywiaeth. Yn y ffordd hon gellir cyfeiriad newydd ar fater yr iaith yng Nghymru cymryd, fel man cychwyn, yr iaith Gymraeg fel arwyddlun allweddol o'r cymhlethdodau a'r amrywiaeth diwylliannol sydd yn diffinio hunaniaeth unigrwydd Cymru.

Diarmait Mac Giolla Chríost, Ionawr 2002.